Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion y Pwyllgor Gwaith, 13/07/21 – Cyfarfod Rhithiol

Yn bresennol:

Y Cynghorwyr A.Hopcyn, D.L.Jones, C.Larsen (Cadeirydd), W.Tudor Owen, I.C.Thomas, R Thomas

---

1. **Cadeirydd**

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd C.Larsen yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2021/22 (unfrydol).

2. **Is-gadeirydd**

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd D.L.Jones yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2021/22 (unfrydol).

3. **Ymddiheuriadau**

Y Cynghorwyr J.W.Parry, C.Williams

4. **Datgan Buddiant Personol**

Dim

5. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)**

Gwylanod

Nododd y Clerc fod y Cynghorydd J.W.Parry wedi cael dipyn o gwynion am wylanod yn Stryd y Faenol a Stryd Dinorwig. Roeddynt yn ymosod ar bobl a phlant, a bydd y Clerc yn adrodd ar y broblem i Gyngor Gwynedd.

4. Gwaith Amrywiol

Cynhaliwyd trafodaeth ac adolygu'r sefyllfa o ran y canlynol:

- **Casglu Sbwriel**

Cyflwynwyd gohebiaeth sydd wedi dod i law gan Sioned Huws o ran casglu sbwriel.

Penderfynwyd (unfrydol):

(1) Gofyn i'r Clerc ymgynnull Grŵp Tasg a Gorffen i edych ar yr argymhellion yn yr ohebiaeth, gan ddod ag argymhellion i'r cyfarfod nesaf.
(2) Y dylai'r Grŵp Tasg a Gorffen gynnwys y Cadeirydd, Is-gadeirydd, Y Cynghorydd Ann Hopcyn, y Clerc, Sioned Huws, Cheryl o Tesco ac Alison o Morrisons.

- **Swyddog Cynnal a Chadw**

Nododd y Clerc ei fod wedi bod yn siarad efo'r Swyddog Cynnal a Chadw, oedd wedi datgan fod baw ci yn broblem gynyddol, yn ogystal â biniau'n gorlenwi, er enghraifft ym Marc Coed Helen ac ym maes parcio Asda.

- **Chwyn**

Penderfynwyd (unfrydol):
(1) Gofyn i'r Clerc gysylltu efo Cyngor Gwynedd i ddatgan fod y broblem o ran chwyn dal yn bodoli, a beth oedd eu cynlluniau yn hyn o beth?
(2) Gofyn i'r Clerc wirio beth sydd yn Swydd Ddisgrifiad y Swyddog Cynnal a Chadw o ran chwynnu, a gwirio efo fo beth oedd y sefyllfa o ran ei fod yn defnyddio chwynladdwr.

- **Llochesi Bysus**

Nodwyd fod y llochesi bysus oedd mewn cyflwr gwaethaf wedi eu hatgyweirio, yn unol â'r Cynllun Gweithredu, a'r flaenoriaeth nawr oedd glanhau llochesi.

5. Offer ar gyfer Caeau Chwarae

Cyflwynwyd adroddiad y Clerc ar yr opsiynau o ran darparu offer ychwanegol ar gyfer caeau chwarae yn y dref.

Nododd y Clerc:
(1) Bod y Pwyllgor Gwaith wedi cael y drafodaeth ganlynol yn ei gyfarfod ar y 9fed o Fawrth:

"5. Offer ar gyfer Caeau Chwarae

Cyflwynwyd adroddiad y Clerc ar yr opsiynau o ran darparu offer ychwanegol ar gyfer caeau chwarae yn y dref.

Nododd y Clerc:
(1) Bod y Pwyllgor Cyllid wedi penderfynu fel a ganlyn yn ei gyfarfod ar yr 16eg o Ragfyr, 2020:

"Penderfynwyd (unfrydol):
(1) Clustnodi £30,000 ar gyfer cronfa wrth gefn penodedig.

(2) O ran y £30,000, gofyn i'r Clerc a'r Dirprwy Glerc drafod efo Cyngor Gwynedd os fyddai modd buddsoddi'r arian yng nghaeau swings y dref, a gofyn am asesiad o ran beth oedd ei angen.
(3) Fel rhan o hyn dylid ystyried cael offer chwarae i blant anabl ym Mharc Coed Helen (fel sydd yn y parc yng Nghaeathro)."

(2) Cafodd y penderfyniad ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar y 5ed o Ionawr 2021.
(3) Bod angen dewis lle'n union yn y dref sydd angen ei dargedu ac un o'r ystyriaethau oedd os oedd digon o le.
(4) Bod y Clerc wedi cyfarfod gyda Swyddogion Cyngor Gwynedd, ac yn dilyn hyn wedi derbyn manylion o ran y math o gylchfannau mae un cwmni yn gallu ei gynnig, a syniad am y prisiau.
(5) Un opsiwn fyddai rhoi "roundabout" ym Mharc Coed Helen, a byddai angen cael pris o'r newydd ar gyfer hyn. Mae Cyngor Gwynedd wedi cynnig cymorth yn hyn o beth.
(6) Bod pris y "roundabout" sydd yng nghae chwarae Caeathro, sef yr "Ability Whirl" roundabout oddeutu £12,975.
(7) Bod ymholiadau wedi cael eu gwneud efo'r Archwiliwr Caeau Chwarae o ran os oedd unrhyw offer yn ein caeau chwarae yn y dref angen ei adnewyddu'n benodol ac awgrymir os rydym eisiau gwario i roi offer newydd yn un o'r caeau chwarae eraill yn y dref, ein bod yn ystyried cae chwarae Stryd Santes Helen i gael offer newydd yno ac efallai cae chwarae Stryd Pedwar a Chwech (dros ffordd i Dafarn y Black Boy).
(8) Bod dipyn o waith eto i'w wneud eto o ran edrych ar yr opsiynau.

Nodwyd y dylid edrych ar gael darpariaeth newydd ym mhob Ward.

Penderfynwyd gofyn i'r Cynghorwyr C.Larsen a D.L.Jones fynd o amgylch y dref i dynnu lluniau yn y parciau er mwyn gweld lle'r oedd angen offer newydd neu offer wedi ei atgyweirio (unfrydol)."

Datblygiadau Diweddar

(1) Yn dilyn hyn roedd y Cynghorwyr C.Larsen a D.L.Jones wedi o amgylch y dref i dynnu lluniau yn y parciau er mwyn gweld lle'r oedd angen offer newydd neu offer wedi ei atgyweirio, ac wedi creu rhestr o'r anghenion a'r blaenoriaethau.
(2) Cafwyd cyfarfodydd gyda swyddog o Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd er mwyn trafod y rhestr ac adnabod blaenoriaethau.
(3) Yn dilyn hyn anfonwyd rhestr at y swyddog perthnasol yn nodi mai dyma oedd yn ddymunol:

Lleoliad	Sut fath o offer	Pris (£)
Cae Chwarae Maes Gwynedd	Rhondda Unit (Galv)	£8,695.00

Cae Chwarae Bro Helen	Bwrdd Picnic	£1,098
Parc Cae Glyn	Bwrdd Picnic	£1,098
Parc y Dre	Bwrdd Picnic	£1,098
Parc Stryd Yr Hendre	Mainc Penrhyn	£710
** Parc ger Bron y Garth	** angen i'r Clerc checio os oes lle i fainc arall	
"concrete base" a gosod meinciau/byrddau picnic		£300 y tro

(4) Roedd e-bost wedi ei dderbyn yn dilyn hyn gan Gyngor Gwynedd o ran y byrddau picnic. Nid oedd byrddau picnic yn cael eu rhoi mewn meysydd chwarae oherwydd y sbwriel mae'n ei greu (ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol gall ddigwydd ar adegau gyda phobl ifanc yn eu defnyddio fel lle i ymgynnull ac yfed yn hwyr yn y dydd). Nodwyd efallai bod Parc y Dre yn fwy addas i fwrdd picnic, ond y teimlad oedd bod bwrdd picnic ym Mro Helen a Chae Glyn yn mynd i greu rhagor o broblem sbwriel.

(5) Roedd yr e-bost yn gofyn i'r Cyngor Tref ystyried rhoi meinciau yn lle byrddau picnic yn Fro Helen a Chae Glyn o bosib? Mewn parciau y rhoddir byrddau picnic fel arfer, nid mewn meysydd chwarae.

(6) Yn dilyn hyn cysylltwyd efo Cyngor Gwynedd, a gofyn am fainc yn y Cae Chwarae ym Mro Helen yn hytrach na bwrdd picnic.

Roedd y Clerc wedi gwneud ymholiadau gyda'r Heddlu o ran problemau o ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghae Chwarae Bro Helen, ond roeddynt wedi datgan nad oedd unrhyw broblemau allan o'r cyffredin wedi eu nodi.

Nodwyd ymhellach bod pobl yn cwyno o ran Cae Top gan nad oedd neb yn torri gwair yno.

Penderfynwyd (unfrydol):

(1) Cadarnhau'r newidiadau i'r rhaglen waith oedd eisoes yn bodoli fel ei fod fel a ganlyn:

Lleoliad	**Sut fath o offer**
Cae Chwarae Maes Gwynedd	**Rhondda Unit (Galv)**
Cae Chwarae Bro Helen	**Mainc**
Parc Cae Glyn	**Dim angen offer yma**
Parc y Dre	**Bwrdd Picnic**
Parc Stryd Yr Hendre	**Mainc Penrhyn**

**** Parc ger Bron y Garth**	**** angen i'r Clerc gael cadarnhad gan Llifon (Cyngor Gwynedd) fod lle i fainc yno**
"concrete base" a gosod meinciau/byrddau picnic	

(2) Gan mai Cyngor Gwynedd sydd wedi gofyn am y prisiau, y dylai Cyngor Gwynedd gomisiynu'r gwaith a ni fel Cyngor Tref yn rhoi'r arian i Gyngor Gwynedd wedyn.
(3) Gofyn i'r Clerc gysylltu gyda Chyngor Gwynedd o ran Parc Bron y Garth gan nad oedd y giât yn cael ei gau yno.
(4) Gofyn i'r Clerc wneud ymholiadau o ran Bwrdd Cyfathrebu ym Mharc Coed Helen.

6. Arwyddion Croeso i Gaernarfon

Cyflwynwyd adroddiad y Clerc ar yr opsiynau o ran yr uchod.

Nododd y Clerc:
(1) Bod gan y Cyngor Tref gyfrifoldeb am arwyddion Croeso ar y ffordd i mewn i Gaernarfon, ac rydym wedi bod yn edrych ar ffordd o'u hatgyweirio.
(2) Bod nifer o ystyriaethau'n yn berthnasol o ran meddwl am gynllun atgyweirio.
(3) Y gofynnwyd i gwmni edrych ar y mater, a'u bod wedi rhoi pris o £230 yr uned, neu £180 yr uned os yn mynd am 6 uned.

Penderfynwyd (unfrydol):
(1) Gofyn am broflenni o'r arwyddion ar gyfer y cyfarfod nesaf, gan ystyried os oes angen rhoi arwydd Safle Treftadaeth y Byd ar yr arwyddion yn ogystal.
(2) Y dylid cael brandio cyson â'r wefan newydd.
(3) Gofyn i'r Swyddog Cynnal a Chadw dorri'r gwair o gwmpas yr arwyddion os yn bosib.

7. Lloches dros yr Aber ger Parc Coed Helen

Nodwyd fod y Cyngor Llawn wedi penderfynu, yn ei gyfarfod ar y 1af o Fehefin, mai'r opsiwn gorau fyddai dymchwel y gysgodfa yn gyfan gwbl, ond cyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Gwaith er mwyn trafod gwahanol opsiynau.

Penderfynwyd datgan fod y Pwyllgor Gwaith o'r farn mai'r opsiwn gorau fyddai dymchwel y gysgodfa yn gyfan gwbl (unfrydol).

8. Cau Allan y Wasg a'r Cyhoedd

Penderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

9. Parc Coed Helen

[redacted]

Gorffennodd y cyfarfod am 7.05 p.m.

Arwyddwyd _____

Dyddiad _____